Cenn@d

MEHEFIN 9 2021 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 15

Ond beth yw hanes y plant erbyn hyn?

Yn yr erthygl hon mae Aled Davies yn ystyried sefyllfa argyfyngus ein heglwysi mewn perthynas ag ymestyn allan i blant ac ieuenctid Cymru. Bellach, nid oes gan dros 95% o blant Cymru unrhyw gysylltiad â'r ffydd Gristnogol. Ar ben hyn, mae effaith pandemig Covid-19 ar waith plant ac ieuenctid mewn ysgolion Sul, clybiau plant a gwasanaethau teulu wedi dwysáu'r sefyllfa hyd yn oed yn fwy fyth.

Yn ystod y 15 mis diwethaf gwelwyd llu o eglwysi a chynulleidfaoedd yn ymgynnull yn rheolaidd ac yn gyson i gynnal oedfa, cyfarfod gweddi, seiat ac ambell ddosbarth astudiaeth Feiblaidd a chymdeithas lenyddol. Yn rhyfeddol, gwelwyd niferoedd da o selogion ein heglwysi'n cofleidio'r dechnoleg newydd, ac yn darganfod byd 'newydd' Facebook Live, sianel YouTube a chyfrwng cyfarfod yn fyw dros Zoom am y tro cyntaf. Gwelwyd sawl gofalaeth yn tystio bod nifer yr addolwyr ar 'Sul rhithiol' yn fwy na'r hyn ydoedd yn y capel cyn y pandemig.

Bellach mae'n bosib i rai sy'n gaeth i'w haelwydydd, neu sy'n byw gryn bellter o'r capel, neu hyd yn oed y rhai nad oes ganddynt amser i ymrwymo i fore cyfan o wisgo a pharatoi, teithio ac eistedd am awr yn y capel, ymuno mewn gwasanaeth. Roedd troi i mewn dros baned am hanner awr yn rhywbeth roeddent yn falch o fod yn medru ei wneud.

Yn naturiol, bu i rai gael eu heithrio, ac mae hynny'n ofid. Er rhannu gwasanaethau papur ayyb, tydi hynny ddim i'w gymharu ag ymuno â chynulleidfa fyw ar fore Sul. Cael 'gweld' y gynulleidfa a'u cyfarch yn swnllyd cyn dechrau'r oedfa, a'r cyfle i ymateb â gwên neu wg i'r hyn roeddent yn ei glywed gan y pregethwr.

Ond diolch am y dechnoleg ryfeddol hon, a mawr obeithiwn y gwelwn fodel hybrid yn cael ei fabwysiadu gan ein heglwysi, lle mae'r dechnoleg yn cael ei defnyddio ochr yn ochr â chyfarfodydd yn y capel.

Ond beth am y plant?

Sut flwyddyn fu hi yn hanes yr ysgolion Sul ac addoliad teuluol? Mae sawl athro ac arweinydd wedi rhannu o'u profiad nhw, gan ddweud mor anodd fu ceisio cynnal momentwm gyda phlant ac ieuenctid yn ystod y 15 mis diwethaf.

Do, fe aeth sawl cylch o eglwysi ati i fentro cynnal ysgol Sul ar Zoom. Bu sawl cylch yn rhannu gwersi drwy'r drws neu'r post yn wythnosol, a bu rhai'n ceisio cyfarfod mewn parc pan oedd yn bosib gwneud hynny. Diolch am bob ymgais i ymestyn allan a chynnal aelwydydd lle mae yna blant ac ieuenctid. Bu arweinwyr hefyd yn ffonio rhieni, ac yn ceisio cynnig cymorth ymarferol lle bynnag roedd hynny'n bosib.

Ond yr hyn a glywir yn gyson dro ar ôl tro yw mai anodd fu cynnal y bwrlwm a phrofiad Ysgol Sul / Clwb Plant arferol dros y cyfnod hwn. Do, gwelwyd colli bod mewn festri yn rhannu gemau a chrefft, actio wrth ddweud stori a gosod ambell her. Mewn gwirionedd, daeth y model hwn i stop yn llwyr am gryn gyfnod, ac erbyn hyn mae yna bryder ynghylch y dyfodol a'r broses o ailddechrau.

Mae sawl arweinydd ysgol Sul eisoes wedi dweud na fyddan nhw'n ailddechrau'r ysgol Sul, gan eu bod yn teimlo bod gwasanaethu am 60 mlynedd a throsodd yn ddigon ynddo'i hun – ond does neb arall yn barod i gydio yn yr awenau. Teg yw dweud nad y pandemig sy'n bennaf cyfrifol am ddiflaniad cynifer o'n hysgolion Sul, ond y ffaith fod dwy genhedlaeth – os nad tair – ar goll o lawer o'n heglwysi bellach. Diolch am yr eglwysi sydd wedi llwyddo i gadw'r cenedlaethau hynny, gan wneud y gwaith o gyrraedd allan at bob oed yn gymaint haws.

Ond, yn anffodus, eithriadau yw'r eglwysi hynny, a golygfa lawer iawn mwy cyffredin y dyddiau hyn yw cynulleidfaoedd lle mae bron pawb yn y gynulleidfa dros 70 oed. Patrwm cyffredin iawn erbyn hyn yw gweld ysgolion Sul yn dirwyn i ben am nad yw'r arweinwyr ar gael o fewn yr eglwys. Er bod y pandemig wedi dwysáu'r sefyllfa, y gwir amdani yw fod hon wedi bod yn broblem ers dros 25 mlynedd.

Problem arall yw'r sefyllfaoedd hynny lle mae uned yr ysgol Sul yn bodoli fel endid hollol ar wahân i fywyd yr eglwys, a

(parhad ar y dudalen nesaf)

Pennod newydd yn hanes *Cristion*
Tudalen 4

Medalau Gee
Tudalen 5

Eisteddfod Rithiol Cenn@d
Tudalen 7

Ond beth yw hanes y plant erbyn hyn?

(parhad o dudalen 1)

does dim cysylltiad rhwng y ddwy gynulleidfa, heblaw am wasanaeth Nadolig a Diolchgarwch. Mae'n debyg y bydd llawer o eglwysi ac ysgolion Sul yn gorfod trafod o ddifri dros y misoedd nesaf beth fydd ffurf eu gweinidogaeth i blant, ieuenctid a theuluoedd o fis Medi ymlaen.

Dylid nodi hefyd nad problem Gymreig yn unig yw hon. Mewn adroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Rwydwaith Gwaith Plant ac Ieuenctid Cristnogol Prydain Fawr, datgelwyd bod nifer y gweithwyr plant sy'n gweithio mewn eglwysi wedi disgyn yn sylweddol dros y degawd diwethaf, a bod nifer y rhai sy'n hyfforddi i weithio yn y maes yma wedi mwy na haneru yn ystod yr un cyfnod. Yn 2010 roedd 670 o fyfyrwyr yn derbyn hyfforddiant i fod yn weithwyr ieuenctid mewn eglwysi. Ond erbyn 2020 roedd y ffigwr wedi disgyn i 310 o fyfyrwyr. Mae hyn yn bennaf oherwydd y diffyg cyfleoedd a swyddi sy'n dod ar gael.

Meddai Rachel Gardner, un o'r rhai sy'n cydlynu'r hyfforddiant hwn, 'Hyd yn oed cyn Covid-19, roedd nifer y plant a'r ieuenctid a oedd yn mynychu gwasanaethau eglwysig yn ein gwlad yn gostwng yn sylweddol. Ond ar ôl blwyddyn na welwyd ei thebyg o'r blaen, dydw i ddim yn credu mai'r ateb yw i ni fynd yn ôl i'r hen ffordd o wneud pethau. Nid ailddechrau'r hyn roeddem yn ei wneud cynt yw'r ateb bellach, ond yn hytrach mae'n rhaid i ni ganfod ffyrdd newydd a ffres o gyflwyno'r ffydd i'n plant.'

Y 95% sydd ar goll

Y gwir amdani ydi nad oes gan 95% o blant Cymru bellach unrhyw gysylltiad ag eglwys na chapel nag ysgol Sul. Mae ystadegau bedydd yr enwadau'n gostwng yn sylweddol o flwyddyn i flwyddyn, a nifer cynyddol o rieni ifanc yn disgrifio'u hunain fel 'digrefydd'. Erbyn hyn mae bron i 75% o bobl o dan 30 oed yn nodi nad oes ganddyn nhw unrhyw grefydd na chred o gwbl. Gwnaed yr asesiad hwn cyn dyfodiad Covid-19, a achosodd i'n ffyrdd arferol o drefnu gwaith plant ac ieuenctid ddod i ben.

Symudodd rhai o'n gweinidogaethau, fel yr ysgol Sul a chlwb ieuenctid canol wythnos, i fod ar-lein. Ond daeth pethau fel Llan Llanast, clybiau plant ar ôl ysgol, clybiau gwyliau, clybiau Ti a Fi i rieni a phlant ifanc, i stop, a hynny am gyfnod o 18 mis. Ni fu gwersylloedd Cristnogol yng Ngholeg y Bala, na diwrnodau chwaraeon na thripiau ysgol Sul.

Mewn sawl achos, nid mater o ailgychwyn fydd hi, ond mater o ailsefydlu, ailrecriwtio, ailhyfforddi staff a gwirfoddolwyr, chwilio eto am y plant rydym wedi colli cyswllt â nhw erbyn hyn. Meddai un gweithiwr ieuenctid mewn eglwys yn ddiweddar, 'Pan ddechreuon ni fynd i gyfnod clo fis Mawrth diwethaf, roeddwn i'n cymryd y byddai'r weinidogaeth i'r ieuenctid yn parhau'n ddidrafferth. Wedi'r cyfan, hon oedd y genhedlaeth Wi-fi yn eich poced. Roeddwn wedi tybied byddai pobl ifanc yn hollol barod am hyn ac yn hyderus i fynd ar-lein. Ond allwn i ddim fod wedi bod yn fwy anghywir. Wrth edrych yn ôl dros 12 mis, rwy'n gweld ieuenctid sydd wedi diflannu o'n gafael, a bydd yn her enfawr i ailgysylltu â nhw.'

Os mai dyma brofiad gweithiwr ieuenctid cyflogedig sydd wedi'i hyfforddi ar gyfer y swydd, ble mae hynny'n ein gadael ni? Un sylw diddorol a wnaeth yntau oedd nodi mai'r criw cyntaf i ddiflannu o'r clybiau ieuenctid o dan ei ofal oedd y rhai hynny nad oedd ganddynt gysylltiad na gwreiddiau yn yr eglwys. Meddai, 'Yn fy marn i, mae cael "rhieni" a "mentoriaid" ysbrydol yn llawer iawn pwysicach na chael "rhaglenni" ysbrydol. Nid cyflwyno ffeithiau a gwybodaeth mewn rhaglenni slic sy'n bwysig, ond dangos ffydd ar waith yn ein bywydau o ddydd i ddydd. Dangos Iesu ar waith yn ein bywydau ni, yn hytrach na chyflwyno Iesu fel ffigwr hanesyddol mewn hanes i'w efelychu.'

Cynllun newydd ar gyfer plant Cymru

Yma yng Nghymru bydd llawer o eglwysi, gobeithio, yn ceisio meddwl am ffyrdd o adfer ac adeiladu ar yr hyn a fu. Mae i'r ysgol Sul draddodiad cryf sy'n mynd yn ôl dros 225 mlynedd, a thros y cyfnod hwnnw gwelwyd sawl trai a llanw.

Ond, beth am y cyfnod newydd, ôl-bandemig?

- A oes gennym gynllun a strategaeth ar gyfer cyflwyno'r newyddion da am Iesu i genhedlaeth newydd o blant?
- A yw hwn yn rhywbeth sy'n cael ei drafod gan yr eglwys gyfan neu'n cael ei adael i griw o rieni sy'n awyddus i gael rhyw fath o ddarpariaeth ar gyfer eu plant?
- A yw'r eglwys yn barod i 'fuddsoddi' yn y genhadaeth hon?
- Oes 'na barodrwydd i fentro i fyd newydd?
- Oes yna awydd i gydweithio yn lleol ac ar draws ffiniau enwadol er mwyn cynnig y ddarpariaeth orau bosib?

Gobeithio y bydd trafodaeth ddeallus ac agored ar y cwestiynau hyn.

Beth all eglwysi lleol wneud yn y cyfnod dyrys hwn, felly?

Yn rhifyn yr wythnos nesaf o *Cenn@d* ceir nifer o syniadau ymarferol ar sut i fynd ati i gynllunio ar gyfer y cyfnod newydd hwn …

Sylw o'r Seidin

'Mater tywyll'

Drwy flynyddoedd fy ngweinidogaeth, cefais fy hun ar dro yn seiadu am bethau mawr y ffydd yn y llefydd mwyaf annisgwyl. A dyma ddigwyddodd yn ystod ymweliad â'r optegydd ym Mangor.

Wrth imi wneud fy ngorau glas i geisio darllen rhyw lythrennau a dweud ai'r llythrennau ar y sgrin werdd neu goch oedd yn fwyaf eglur, cefais fy hun yn trafod y byd, a'r bydysawd. Yna, trodd y sgwrs at ddirgelwch y ffaith fod yna 'fater tywyll' o'n cwmpas ym mhob man.

'Mater tywyll?' gofynnais innau.

'Yes,' meddai'r optegydd. 'Isn't it fantastic that despite everything we can see God's universe is full of darkness still!'

Aeth ymlaen i ddweud bod y cyfan yn rhyfeddod, ac yn ddirgelwch mawr. Er cryfder yr haul a disgleirdeb y lloer, a'r miloedd ar filoedd o sêr sydd i'w gweld yn goleuo'r ffurfafen – mae'r tywyllwch yn fwy na'r cwbl oll!

'Ond,' meddwn i'n betrus, 'rydan ni, Gristnogion, yn gwybod pob peth am darddiad y tywyllwch yma. Bu gyda ni er y dechreuad, a hyd yn oed cyn hynny:

> Yn y dechreuad, creodd Duw y nefoedd a'r ddaear. Yr oedd y ddaear yn afluniaidd a gwag, ac yr oedd tywyllwch ar wyneb y dyfnder, ac ysbryd Duw yn ymsymud ar wyneb y dyfroedd. A dywedodd Duw, "Bydded goleuni." A bu goleuni. Gwelodd Duw fod y goleuni yn dda; a gwahanodd Duw y goleuni oddi wrth y tywyllwch. Galwodd Duw y goleuni yn ddydd a'r tywyllwch yn nos. A bu hwyr a bu bore, y dydd cyntaf.

'Ai dyna achos a moment y Bang Mawr cychwynnol?'

'What do you do for a living?' meddai'r optegydd wedyn.

'O, dwi'n weinidog yr Efengyl, ac yn Gristion o argyhoeddiad sydd wedi gwasanaethu Eglwys Bresbyteraidd Cymru fel Caplan Ieuenctid ac yna fel Gweinidog cyn ymddeol.'

'You know all about these things, then?'

'Wel, dwn i ddim am hynny,' meddwn i, gan lyncu fy mhoer a disgwyl y cwestiwn nesaf.

'I find the mystery of it all so fascinating,' meddai yntau wedyn.

'Wel ia, mae hynny'n ddigon gwir,' atebais innau. 'Mae'r cyfan yn ddirgelwch anhygoel i lawer ohonom. Ond yn y dirgelwch yma y ceir dyfnder ffydd, ac yn y dyfnder ffydd y ceir y gallu i ymddiried yn Nuw.'

Dywed Genesis wrthym am wacter a thywyllwch y cread cychwynnol gydag ysbryd Duw yn symud ar wyneb y dyfroedd. Os felly, roedd y mater tywyll y pryd hynny yn llawn gobaith, yn llawn posibiliadau a chreadigrwydd mawr yn disgwyl i Dduw ddweud, 'Bydded goleuni!'

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio bu'n dywyll nos ar rai, tra oedd eraill yn cuddio gwirioneddau mewn tywyllwch anwiredd a niwloedd aneglur. Gadawyd ninnau'n ymbalfalu yn y tywyllwch go iawn gan weddïo a cheisio unrhyw arwydd o'r newydd am ryw wawr fyddai'n goleuo drwy ffurfafen COVID-19.

Yng nghanol hyn oll cefais emyn y diweddar annwyl Aled Lloyd Davies yn gymorth. Mae'n weddi, yn fyfyrdod ac yn foliant mewn dyddiau

Trwy ganiatâd Iwan Williams, www.lluniauiwan.co.uk

anodd eu tramwy, a gobaith yr Efengyl yn oleuni clir i'n harwain allan o'r cyfnod hwn. Mae'n canu am oriau tywyll amheuon blin, cors anghrediniaeth, merddwr difaterwch a niwloedd difrawder llesg. Ond, er negyddiaeth ymddangosiadol llinellau cyntaf y pedwar pennill daw gweddi daer i gloi pob un. Er pob tywyllwch ac anobaith mae'n dyheu am deimlo rhyw chwa a chynnwrf, gwefr a nerth yr ysbryd o gyfeiriad Calfaria i'n harwain a'n hysgwyd, i'n deffro a'n herio.

Er bod ein hamgylchiadau presennol yn ansicr, cawsom ein galw i weld heibio tywyllwch ein hamheuon a gweithio tuag at ddyrchafu'r hyn sy'n gymeradwy, yn werthfawr ac yn wirioneddol dda yn ein cymunedau eglwysig a lleol.

Gallwn fod yn gwbl sicr y bydd Duw'r goleuni a'r tywyllwch, yr harddwch a'r hyfrydwch, yn arwain ei bererinion drwy bob math o dreialon. Yna, bydd ein gwaith a'n gweddi a'n gwasanaeth yn ein dwyn yn nes fyth ato Ef, at 'yr hwn sydd yn gwaredu!'

Ydy, y mae'r grym gyda ni – grym yr Ysbryd Glân. Mae grym y goleuni sy'n goleuo pob tywyllwch gyda ni. Dathlwn a diolchwn am hynny.

Jim Clarke
Llanfair-pwll

Yn oriau tywyll ein hamheuon blin
a'r wawr ymhell,
ynghanol cors ein hanghrediniaeth ddu
mewn unig gell,
O deued atom chwa o Galfarî
i ennyn fflam ein ffydd, a'n harwain ni.

Ym merddwr difaterwch gwag y byd
a'i werthoedd brau,
a niwloedd llonydd ein difrawder llesg
o'n cylch yn cau,
O deued cynnwrf awel Calfarî
i ennyn fflam ein ffydd, a'n hysgwyd ni.

Ym marrug ein bydolrwydd, egin gwyrdd
sy'n crino i gyd,
a rhewynt materoliaeth ddreng ein hoes
sy'n deifio'n byd;
O deued gwefr y gwynt o Galfarî
i ennyn fflam ein ffydd, a'n deffro ni.

Yng nghân y ceiliog fe'n cyhuddir oll
mewn llawer man,
ac ofn y farn gyhoeddus sy'n ein gwneud
yn llwfr a gwan;
O deued nerthol gorwynt Calfarî
i ennyn fflam ein ffydd, a'n herio ni.

ALED LLOYD DAVIES
(*Caneuon Ffydd*, 623)

Pennod newydd yn hanes *Cristion*

Mae *Cristion* yn gylchgrawn cydenwadol sy'n bodoli ers 35 mlynedd, ac wedi bod yn fenter lwyddiannus rhwng chwe enwad sy'n cynnal gweithgarwch Cristnogol drwy gyfrwng y Gymraeg. Penodir golygydd am gyfnod o dair blynedd, a bu *Cristion* yn ffodus iawn ar hyd y blynyddoedd i gael golygyddion craff a blaengar i baratoi rhifynnau bob deufis. Diolch i'r Parch Owain Llyr Evans am ei waith dros y tair blynedd diwethaf.

Erbyn hyn mae yna dîm newydd wrth y llyw, a dymunwn yn dda iddynt yn eu gwaith. Mae'r rhifyn cyntaf bellach ar y ffordd i'r wasg, ac mae cyfarfod lansio wedi ei drefnu dros Zoom er mwyn clywed gan y golygyddion newydd ynghylch eu gweledigaeth a'u bwriadau i ddatblygu'r cylchgrawn.

Cynhelir y cyfarfod lansio nos Wener, 18 Mehefin, am 8 o'r gloch (gydag ymddiheuriadau i selogion gemau'r Ewros, gan mai dyma amser gêm Lloegr a'r Alban yn Wembley hefyd!). Ond gobeithio y trowch chi i mewn ar Zoom y noson yma i gefnogi Tîm Cristion Cymru, sef Carwyn a Nerys Siddall a Dylan Rhys. Rwy'n siŵr bydd y tri yn gyfarwydd i'r rhelyw o ddarllenwyr *Cenn@d*, ond dyma gyflwyno ychydig o'u hanes i chi:

O'r chwith i'r dde: Nerys Siddall, Carwyn Siddall a Dylan Rhys

Dylan Rhys Parry

Magwyd Dylan yng Nghaernarfon, gyda'r teulu'n mynychu Eglwys Annibynnol Salem yn y dref. Yn 2010 graddiodd o Goleg y Drindod â gradd yr Actor a'r Celfyddydau. Ers 2008 mae Dylan wedi ymwneud â gwaith Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM). Cafodd gyfle i fynd i sawl gwlad gan gynnwys Hwngari a Papwa Gini Newydd i ymweld â phrosiectau cenhadol. Yn 2011 bu ar gwrs Hyfforddiant mewn Cenhadaeth yn Ne Affrica ac India. Ordeiniwyd Dylan yn weinidog gyda'r Annibynwyr a bu'n gweinidogaethu yng ngofalaeth Bro'r Creuddyn am dros saith mlynedd. Mae bellach wedi derbyn gwahoddiad i weinidogaethu ar eglwysi'r Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr, a'r Tabernacl, Porthcawl.

Carwyn Siddall

Cafodd Carwyn ei fagu ar fferm yn Niwbwrch, Ynys Môn, a'i godi i'r weinidogaeth yn Saron, Bodedern. Yn dilyn ei addysg gynradd ac uwchradd, cwblhaodd radd BA yn y Gymraeg a Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Bangor cyn parhau â'i astudiaethau ac ennill gradd MTh. Yn 2011 dechreuodd ar gyfnod o flwyddyn fel Gweinidog dan Hyfforddiant yng Ngofalaeth Bro Llanuwchllyn a'r Cylch, ac ym mis Medi'r flwyddyn ganlynol, derbyniodd alwad gan yr ofalaeth honno i gael ei ordeinio a'i sefydlu'n weinidog yno. Mae'n parhau i weinidogaethu yn yr ofalaeth, ac mae Eglwys yr Annibynwyr yn y Bala bellach wedi ymuno â'r ofalaeth.

Mae'n ŵr i Nerys ac yn dad i Miriam, ac yn byw ym mhentref Llanuwchllyn.



Nerys Siddall

Mae Nerys yn wreiddiol o Langefni, Ynys Môn, ac fel teulu, roeddent yn mynychu Capel Moreia yn y dref. Graddiodd o Brifysgol Bangor â gradd gydanrhydedd yn y Gymraeg a Diwinyddiaeth, ac aeth ymlaen i fod yn athrawes Addysg Grefyddol yn Ysgol Uwchradd Caereinion, Llanfair Caereinion. Yn 2014 dechreuodd weithio i Gymdeithas y Beibl a chael ei phenodi'n Rheolwraig a Swyddog Addysg Canolfan Byd Mary Jones yn y Bala.

Mae bellach yn byw yn Llanuwchllyn gyda Carwyn a'u merch, Miriam.

Pob dymuniad da iddynt, ac edrychwn ymlaen at weld y copi cyntaf dan eu golygyddiaeth, a fydd allan yn fuan iawn.

Medalau Gee

Cofiwch fod angen i'r enwebiadau fod i mewn erbyn diwedd Mehefin os ydych am enwebu rhywun i dderbyn Medal Gee eleni.

Rydym yn croesawu enwebiadau am fedalau o blith yr eglwysi yng Nghymru, gan gofio bod yn rhaid i bob ymgeisydd a enwebir gan ei eglwys fod dros 75 oed ac yn dal i fynychu'r ysgol Sul (mae ein diffiniad o ysgol Sul hefyd yn cynnwys dosbarthiadau Beiblaidd/seiadau trafod canol wythnos). Mae modd lawrlwytho ffurflen enwebu o'r wefan – https://www.ysgolsul.com/?page_id=3737

Rhaid i bob cais sydd i'w ystyried ar gyfer eleni fod wedi ein cyrraedd ni erbyn 30 Mehefin fan hwyraf. Mae cyflwyno medalau fel hyn yn ffordd anrhydeddus o ddiolch i athrawon ysgol Sul dosbarthiadau plant ac ieuenctid am oes o wasanaeth, ac o gydnabod ffyddlondeb aelodau dosbarth yr oedolion yn ogystal. Tybed oes yna rywrai yn eich ysgolion Sul chi sy'n perthyn i'r categorïau hyn? Os oes yna, ewch ati i enwebu!

Oherwydd cyfyngiadau Covid-19, ni fydd yn bosib trefnu digwyddiad torfol i gyflwyno'r medalau eto eleni. Yn hytrach, y bwriad yw trefnu digwyddiadau yn yr eglwysi lleol, gan ymddiried mewn aelodau o bwyllgor Cyngor yr Ysgolion Sul neu weinidog lleol i gyflwyno'r fedal i'r sawl a fydd yn ei derbyn. Y gobaith yn 2022 yw trefnu digwyddiadau torfol eto yn y de a'r gogledd.

Gyda llawer o ddiolch, ar ran Cyngor yr Ysgolion Sul,

Aled Davies
Cyfarwyddwr Cyngor yr Ysgolion Sul



✉ Annwyl Olygydd,

Annwyl Olygydd,

Mae yna lawr iawn o bobol wedi dweud ers y pandemig na fydd pethau byth 'run fath eto. Ddim yn y ffordd yr ydym yn meddwl nac yn ymddwyn, na chwaith, efallai, yn y ffordd rydym yn cyfarch ein gilydd.

Cyn aflwydd y Covid, wrth ffarwelio roedd llawer iawn yn dweud wrth ei gilydd, 'Cymer ofal'. Ond yn y cyfnod hwn mae'r cyfarchiad ddiwedd sgwrs yn llawer iawn mwy dwys ac yn fwy bugeiliol o lawer. Rŵan fe glywn y cyfarchiad, 'Cadwa'n ddiogel' neu 'Cadwa'n saff'.

Beth, gyfeillion, yw'r arwyddion ein bod yn ddiogel? Sut ydan ni'n gwybod hynny?

Fe glywais y stori yma'n ddiweddar. Merch ifanc wedi mynd i ganolfan leol. Ac yn y lle hwnnw bu iddi gyfarfod â gŵr hollol ddiarth iddi. Ar ddiwedd y cyfarfod, roedd y gŵr arbennig yma eisiau mynd i gerdded i lecyn lleol arall. Fe gynigiodd Helen fynd â fo yno, i ddangos y ffordd iddo. A ffwrdd â nhw.

Dyma Helen yn rhannu'r profiad gyda Nain, drwy ddweud yr hanes am ei thaith. Roedd Nain druan wedi dychryn, ac meddai, 'Est ti erioed i gerdded hefo gŵr hollol ddiarth na welaist erioed o'r blaen?'

'Do, Nain,' meddai. 'Roeddwn yn gwybod y byddwn yn iawn – roedd yn cario Beibl!'

Mae sôn, yn does, am 'stranger danger' ond doedd hynny'n poeni dim ar y ferch ifanc yma, nac yn berthnasol iddi. Oherwydd roedd hi wedi adnabod yr arwyddion – fod y Beibl yn symbol o ddiogelwch.

Ia. Yr arwyddion. Ydym ni'n eu hadnabod? Ac yn fwy na hynny, efallai, ydym ni'n medru ymddiried ynddynt?

Yn gywir,
Iorwerth P Jones
Rhuthun

ADNABOD



Cyfres o astudiaethau Beiblaidd ar gyfer y cartref neu grŵp gan y Parch. Denzil I. John

Mae testun a chyflwyniad fideo o'r deunydd hwn ar gael ar wefan y Cyngor Ysgolion Sul: www.ysgolsul.com/?page_id=804

Cymeriadau'r Testament Newydd
49 – Titus

Gweddi

Sanctaidd Dduw, gwyddom ein bod yn orbarod i feddwl am fudiadau a digwyddiadau mawr bywyd wrth yr enwau amlycaf sy'n gysylltiedig â hwy yn unig. Helpa ni i weld gwaith y bobl gyffredin a di-nod, ond hynod o bwysig, ym mywyd yr eglwys. Wrth feddwl am Titus heddiw, cofiwn a diolchwn am bawb sy'n cyfrannu i waith dy eglwys ledled byd. Amen.

Darlleniad Epistol Paul at Titus

Cyflwyniad

Ystyr yr enw Titus yw 'anrhydeddus' neu 'gŵr o anrhydedd', ond prin yw'r wybodaeth amdano yn yr epistolau eraill ac yn y llythyr hwn a anfonwyd ato. Nid ydym yn gwybod o ba genedl yr hanai, ac eithrio'r ffaith nad oedd yn Iddew. Nid oes sylw amdano yn Llyfr yr Actau, ond ceir cyfeiriadau ato fel un a oedd wrth law Paul ac i'r apostol ymddiried llawer o dasgau iddo. Yn 1 Corinthiaid 7:6–15 a 2 Corinthiaid 8:6 ceir enghreifftiau sy'n dangos ei fod yn berson defnyddiol a dibynadwy. Yn ôl y nodyn yn 2 Timotheus 4:10, roedd gyda Paul yn Rhufain, ac yn ddwylo diogel i drefnu tasgau, fel y bu yng Nghreta. Ni wyddom unrhyw beth am amgylchiadau ei farw na beth a wnaeth wedi marwolaeth Paul. Rhaid ei fod yn un o weithwyr tawel yr eglwys na thynnodd sylw ato'i hun, ond a welodd waith i'w gyflawni a bwrw iddi.

Myfyrdod

Ym mhob corff o weithgaredd bydd rhai'n arwain ac eraill yn dilyn, rhai'n gosod y dasg ac eraill yn ei chyflawni. Un o'r bobl ddibynadwy hynny oedd Titus, ac yn weithiwr hanfodol i lwyddiant y prosiect dan sylw. Nid pawb sydd â'r weledigaeth i gynllunio ond, pa mor eang bynnag y weledigaeth, bydd pob cadfridog yn pwyso ar y sawl sy'n cyflawni'r tasgau.

Gwaith tîm yw gwaith yr eglwys, a bydd pob gweinidog yn pwyso, nid yn unig ar y diaconiaid, ond ar y sawl sy'n ddigon parod i ysgwyddo'r cyfrifoldeb o agor drysau, estyn llyfrau, a bod yn ddefnyddiol ym mhob dull a modd. Un corff yw'r eglwys ar draws yr enwadau, y cenhedloedd a'r cyfandiroedd. Gwrthododd Paul ag enwaedu Titus gan fod yr apostol wedi'i argyhoeddi'n llwyr fod pawb, beth bynnag eu cenedl a'u cefndir, yn gydradd yng ngolwg Duw, ac nad oedd angen i'r cenedl-ddynion droi'n Iddewon cyn dod yn Gristnogion. Tybed a oedd y ffaith fod Titus yn un o gwmni Paul ar y ffordd i Gyngor Jerwsalem, fel sy'n cael ei nodi yn Actau 15:2, yn enghraifft o ddidwylledd a diwydrwydd y Cristnogion o gefndiroedd eraill?

Faint o Gristnogion sydd o gefndiroedd gwahanol i ni, o ran cenedl, iaith, lliw croen a phob israniad dynol arall? Mae'n rhyfedd na wnaeth Luc enwi Titus yn Llyfr yr Actau gan ei fod yn enghraifft wych o'r hyn y byddai Luc yn ei bwysleisio'n gyson wrth sôn am le a chyfraniad pawb yng ngwledd y bywyd. Roedd y cenedl-ddyn hwn yn dyst effeithiol mewn cymunedau nad oedd yn Iddewon.

Mae'n arwyddocaol cofio bod Paul, yr Iddew pybyr, wedi gweld bod pobl fel Luc, Timotheus a Titus yn addas ac yn aeddfed i barhau fel yr ail genhedlaeth o arweinwyr yr eglwys heb iddynt fod yn Iddewon. Gwelodd y cenhadon ar draws rhychwant eang yr eglwys mai'r dasg fawr oedd darganfod credinwyr didwyll i fynd â'r genhadaeth i'w broydd a'u cymunedau. Byddent hwythau am ddychwelyd i'w cymunedau a rhannu'r profiad fod y ffydd Gristnogol yn brofiad byw a pherthnasol, ac yn drysor i'w feddiannu.

Gweddi

Cydnabyddwn, Arglwydd, nad ydym mor ymroddedig i genhadaeth yr eglwys ag y gallem fod. Agor ein llygaid i weld y cyfleoedd a ddaw i rannu ein ffydd ac i ddangos y ffordd i'n teulu, cyfeillion, a'n cymdogion. Amen.

Trafod ac ymateb

- Beth oedd y prif bethau yr oedd Titus i fod yn gyfrifol am eu gwneud yn yr eglwys yng Nghreta, yn ôl cyfarwyddyd Paul iddo yn ei lythyr ato (1:5,11; 2:7; 3:1,2 etc.)?
- Pam mae gwaith onest a gweithredoedd da mor bwysig i'w cael yn yr eglwys (3:1,8,14)?
- Beth oedd y pethau yr oedd Titus i fod i'w gochel a chadw ymhell oddi wrthynt (3:9)? Ydym ni'n llwyddo i ochel rhag yr un math o bethau?

S4C

Nos Sul, 13 Mehefin – *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*, am 7:00yh
Yr wythnos yma, bydd Lisa yn Sir y Fflint yn dysgu am un o'r mannau mwyaf cysegredig yng Nghymru – ffynnon sanctaidd y Santes Gwenffrewi yn Nhreffynnon. Ac o gadeirlan Llanelwy, cawn fwynhau perfformiad gan y tenor ifanc Dafydd Wyn Jones.

Dyma ddolen i gopi o gylchlythyr *Dechrau Canu, Dechrau Canmol* ar gyfer mis Mehefin – https://spark.adobe.com/page/wMTkooGnyNCZG/

BBC radio cymru

Sul, 13 Mehefin – *Caniadaeth y Cysegr*, 7:30yb a 4:30yp
Am yr wythnosau nesaf R Alun Evans fydd yn cyflwyno cyfres yn trafod themâu gwahanol. Cyfeillgarwch fydd dan sylw yn y rhaglen hon o emynau.

Sul, 13 Mehefin – *Oedfa Radio Cymru*, 12:00yp
yng ngofal Elin Maher, Casnewydd
(Hefyd ar gael i'w gwrando eto o chwilio am Radio Cymru ar y we)

Eisteddfod Rithiol *Cenn@d* 2021 – cystadleuaeth i'n darllenwyr

Gan na fydd hi'n bosib inni fwynhau'r Eisteddfod Genedlaethol arferol mewn cae yn Nhregaron eleni, dyma lansio cystadleuaeth arbennig ar gyfer darllenwyr *Cenn@d*. Fe'ch gwahoddir i fynd ati i greu eich cyfansoddiadau yn ystod mis Mehefin, gan roi mis Gorffennaf i'r beirniaid gloriannu'r cynnyrch. Bydd enwau a gwaith y buddugwyr yn cael eu cyhoeddi yn *Cenn@d* ddechrau Awst.

Mae gennym dair cystadleuaeth ar eich cyfer, sef:

1. Llunio englyn

Cyfansoddi englyn ar y thema 'Galwad'

Beirniad y gystadleuaeth hon fydd Eurig Salisbury

2. Geiriau i emyn

Cyfansoddi emyn ar y thema 'Gobaith'

Beirniad y gystadleuaeth hon fydd Delyth Morgans Phillips

3. Salm fodern

Creu salm gyfoes ar y thema 'Clodfori Duw yn y byd cyfoes'

Beirniad y gystadleuaeth hon fydd Aled Lewis Evans

Anfonwch eich cyfansoddiadau, un ai drwy e-bost at aled@ysgolsul.com, neu drwy'r post at: Cystadleuaeth Cenn@d, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH, i gyrraedd ddim hwyrach na **30 Mehefin**. Bydd copi o'r gyfrol *Gweddïau Elfed*, sef casgliad cynhwysfawr o weddïau'r diweddar Ddr Elfed ap Nefydd Roberts, yn wobr ym mhob categori.

Eurig Salisbury

Delyth Morgans Phillips

Aled Lewis Evans

Apêl Covid-19 Ysbytai Cenhadol Shillong a Jowai (Meghalaya)

Daeth yr apêl frys ar gyfer offer i helpu ysbytai cenhadol Shillong (Ysbyty Gordon Roberts) a Jowai (Norman Tunnel) i ddygymod â'r don fawr o heintiadau Covid sy'n sgubo drwy'r dalaith honno yng Ngogledd-ddwyrain India i ben ar 6 Mehefin.

Aed ymhell dros y targed o £30,000 a osodwyd. Bydd unrhyw arian fydd yn weddill yn fawr ei ddefnydd wrth i daleithiau eraill yng Ngogledd-ddwyrain India lle mae Eglwys Bresbyteraidd India ar waith ddygymod efo effeithiau Covid. (Roedd £41,500 wedi ei gasglu erbyn 5 Mehefin.)

Nid yw'r don hon o'r feirws wedi mynd heibio o bell ffordd. Mae'r eglwys yno'n falch iawn o'r gefnogaeth hon gan yr eglwys yma yng Nghymru ac yn ddiolchgar am weddïau'r eglwys hefyd drostynt wrth iddynt ddygymod efo effeithiau'r pandemig yno.

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Teyrnasiad y nefol

Darllen – Salm 92:1–4, 12–15

Gweddi

Geidwad hollalluog, cyflwynwn i ti ein mawl. Drwy dy Ysbryd, rhyddha ni i'th foli. Rydym am roi i ti aberth ein mawl. Meddianna'r munudau yma i lifo er dy glod. Drwy Iesu Grist. Amen.

Emyn 246 – 'Duw, teyrnasa ar y ddaear'

Darllen – Marc 4:26–34

Pan ysgrifennwyd Efengyl Marc, nid oedd nac adnodau, na pharagraffau, na phenodau, na phenawdau uwchlaw pob adran.

O fwrw trem yn ôl dros gyd-destun yr adnodau sydd o'n blaenau, gwelwn ein bod ar ddiwedd adran sy'n sôn am had yn tyfu a gair yr efengyl sy'n dwyn ffrwyth. Er bod anghrediniaeth, bydolrwydd, neu galon-galedwch yn ymddangos fel pe baent yn fwy dylanwadol na grym had 'Gair Duw', y gwir yw y bydd yr had yn dwyn ffrwyth a chynhaeaf toreithiog. Felly, mae Dameg yr Had yn Tyfu (4:26–9), sy'n unigryw i Efengyl Marc, a Dameg yr Hedyn Mwstard (4:30–32) i'w deall o fewn cyd-destun dysgeidiaeth am gynnydd, lledaeniad ac ymestyniad anorchfygol Teyrnas Dduw.

Teyrnasoedd daearol

I ni, mae gan deyrnas neu ymerodraeth bob amser ffiniau daearyddol. A gellir tynnu llinell ar fap sy'n cyfyngu ar lywodraeth, awdurdod teyrnas, neu gyrhaeddiad gwladwriaeth ddaearol.

Gobeithiai cyfoedion Iesu am frenin o dras Dafydd fyddai'n rhyddhau'r genedl o orthrwm iau Rufeinig, gan adfer y deyrnas i Israel. Byddai dydd yr Arglwydd (rydym yn gorsymleiddio!) yn arwain at sefydlu teyrnas o gyfiawnder wrth i'w gelynion gael eu goresgyn. Deuai'r dydd pan fyddai'r ddaear yn llawn o wybodaeth yr Arglwydd.

Hyd yn oed wedi'r groes a'r atgyfodiad, ac ymwneud yr Iesu â'i ddisgyblion am ddeugain niwrnod, yn union cyn i Iesu gael ei ddyrchafu at y Tad, roedd yr apostolion yn parhau i ofyn, 'Arglwydd, ai dyma'r adeg yr wyt ti am adfer y deyrnas i Israel?' (Actau 1:6)

Mor anodd ydyw i ni ddychmygu teyrnasiad heb diriogaeth.

Teyrnasiad Duw

Rhwydd yw talu gwrogaeth â'n gwefusau nad teyrnas ddaearol, neu ymerodraeth sy'n gyfyngedig i diriogaeth arbennig, neu genedl neu hil arbennig mo teyrnas Dduw.

Wedi'r cyfan, ar hyd y canrifoedd, syrthiodd Eglwys Iesu Grist i'r demtasiwn o uniaethu teyrnas Dduw â chyfyngiadau neu ffiniau 'byd cred' (Christendom). Ond, yn y lle cyntaf, nid man ein geni, neu ddull ein crefydda chwaith, sy'n penderfynu a ydym yn byw'n ddyddiol ac yn weithredol o dan deyrnasiad Duw.

Teyrnasiad Duw – teyrnasiad gwahanol

Byddai modd dadlau bod 'teyrnasiad Duw' (beibl.net) yn hytrach na 'theyrnas Duw' (BCN) yn cyfleu'n well i ni rym deinamig llywodraeth Duw dros y byd.

Mae teyrnasiad Duw yn realiti presennol na ellir ei symud. Nid yw ei hawl i fod yn Arglwydd yn dibynnu ar rymoedd milwrol neu wleidyddol, ar drais nac ar oresgyniad byddinoedd, na chwaith ar gydsyniad mwyafrif plaid. Mae ei deyrnasiad yn sefydlog ac yn anorchfygol am ei fod yn Dduw.

Nid ei frenhiniaeth ef, ond ein hamharodrwydd ni i gydnabod ei frenhiniaeth, sydd yn y glorian pan ystyriwn ei deyrnasiad.

Ein hamharodrwydd i gydnabod ei frenhiniaeth yw ein gwrthryfel (pechod). Plygu ac ildio iddo, gan gydnabod ei hawl i lywodraethu, yw dechrau iechyd a llesâd ac adferiad. Cydnabod ei frenhiniaeth ac ildio iddo (edifeirwch) yw amod derbyn maddeuant.

Trawsnewid disgwyliad

Mae'n amlwg o ddarllen y ddwy ddameg fod Iesu'n gwyrdroi disgwyliadau ei wrandawyr.

Er enghraifft, roedd Eseciel wedi annog ei gynulleidfa, er iddynt alaru yng nghaethglud Babilon, i beidio ag anobeithio (17:22–4). Roedd yr Arglwydd Dduw am eu codi a'u dychwel i'w gwlad eu hunain, meddai. Byddai 'brigyn', yr hyn oedd ar ôl o'r goeden gedrwydd gref a aeth i Fabilon, yn cael ei blannu drachefn ym mynyddoedd Israel. Byddai ei adferiad yn darostwng coed eraill (darlun o frenhinoedd a theyrnasoedd eraill). A byddai adar yr awyr ac anifeiliaid y maes yn cysgodi o dan ei changhennau. Gwaith yr Arglwydd fyddai hyn, a sail eu gobaith oedd ei addewid, 'Myfi, yr ARGLWYDD, a lefarodd, ac fe'i gwnaf.' (Eseciel 17:24)

Teyrnasiad Duw – hedyn, nid cedrwydd

Nid yng nghadernid y cedrwydd, nid mewn rhwysg nac mewn goruchafiaeth ddaearol yr amlygir teyrnasiad Duw dros y byd.

Mae ei ymddangosiad, meddai Iesu, fel hedyn mwstard bychan a dinod (Marc 4:31). Byddai'n rhwydd ei danbrisio, neu hyd yn oed fethu gweld y grym sydd yn yr hedyn bychan di-liw. Er hyn, fel yr hedyn bychan sy'n 'tyfu ac yn mynd yn fwy na'r holl lysiau, ac yn dwyn canghennau mor fawr nes bod adar yr awyr yn gallu nythu dan ei gysgod', bydd teyrnasiad Duw yn cynyddu. Mae motiff brenhinol Eseciel yn awr yn perthyn i fywyd yr hedyn mwstard dinod.

Teyrnasiad Duw – bywyd yr had

Fe gofiwn fod Iesu wedi cyfeirio at ei groeshoeliad a'i atgyfodiad fel had sy'n cael ei gladdu cyn ffrwydro i fywyd newydd, toreithiog ei ffrwyth (Ioan 12).

Nid damweiniol chwaith yw defnydd Iesu o'r disgrifiad o'r amaethwr sy'n 'cysgu'r nos a chodi'r dydd' (adn 27).

Ymhlith cyfoedion Iesu roedd y darlun o 'gysgu' a 'chodi' i'r dydd yn ffordd o gyfeirio at yr atgyfodiad a ddeuai drwy ymyrraeth Duw yn hanes ei bobl, gan ddwyn llwyddiant i'r genedl a heddwch i'r byd.

Ond nid calendr ein dyddiau, ein cysgu a'n deffro ni, sy'n pennu llwyddiant y deyrnas. Yn yr had mae grym y bywyd. Ac 'ohoni ei hun y mae'r ddaear yn dwyn ffrwyth'. Ohoni ei hun y mae bywyd ac egin a ffrwyth y deyrnas fyd-eang yn aeddfedu'n barod i'r cynhaeaf. Anweladwy bron yw egin, cynnydd ac aeddfedrwydd y cnwd. Cynyddu a wna'r bywyd 'mewn modd nas gŵyr efe'.

Tebyg yw effaith efengyl gras ein Harglwydd Iesu Grist yn ein calonnau. Er y bydd llawer yn hau hadau 'llygredigaeth', bydd had gair Duw ynom yn 'medi bywyd tragwyddol' (Galatiaid 6:7–10). Trwy ei allu ef, byddwn yn cynyddu mewn gras (2 Pedr 3:18) a bydd gallu'r bywyd hwnnw o'n mewn yn sicr o ddwyn ffrwyth da 'erbyn dydd Crist Iesu' (Philipiaid 1:6).

Bywyd yr had yw hwn – bywyd teyrnasiad dirgel, cynyddol, ffrwythlon, byd-eang a grasol Duw.

Gweddi

O Dduw, ein crëwr, ein prynwr, ein gwaredwr, gosodaist i ni dy fab Iesu Grist fel ein bugail da. Caniatâ i ninnau heddiw, drwy waith dirgel a mewnol dy Ysbryd Glân, dderbyn had bywiol dy air, grym dy deyrnasiad ynom, fel y cawn dy wasanaethu'n llawen yn y byd hwn gan ddisgwyl cyflawniad dy waith a'th frenhiniaeth yn y byd erbyn dydd Crist Iesu. Amen.

Emyn 245 – 'Yr Iesu a deyrnasa'n grwn'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru